**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: diweddariad 2013

Gorffennaf 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/1235
Rhif dogfen:13/051

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: diweddariad 2013

Gorffennaf 2013

Owain Roberts, Siân Eleri Richards ac Alys Thomas

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru o ran ei rhaglen ddeddfwriaethol bum mlynedd. Mae'n cynnwys manylion am y Biliau hynny sydd eisoes wedi'u cyflwyno a'r rhai y mae disgwyl eu cyflwyno yn sesiwn 2013-14.

Mae'r papur hefyd yn cynnwys manylion am yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Llywodraeth ar y Biliau hynny sydd heb eu cyflwyno eto, ynghyd â gwybodaeth am Filiau eraill y bydd y Llywodraeth yn eu dwyn gerbron y Cynulliad cyn yr etholiadau nesaf ym mis Mai 2016.

Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad am raglen ddeddfwriaethol LLywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf 2013.

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cynnwys


**1. Rhagymadrodd ... 1**

**2. Biliau a gyflwynwyd yn sesiwn 2012-13 ... 2**

2.1. Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) ... 2
2.2. Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) ... 3
2.3. Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ... 3
2.4. Bil Teithio Llesol (Cymru) ... 4
2.5. Bill Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethiant a Gwybodaeth) (Cymru) . 4
2.6. Bil Addysg (Cymru) ... 5
2.7. Bil Sector Amaethyddol (Cymru) ... 6

**3. Biliau sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2013-14 ... 8**

3.1. Bil Gweithlu'r Sector Cyhoeddus ... 8
3.2. Bil Tai ... 9
3.3. Bil Iechyd (Cyllidebau) ... 10
3.4. Bil Datblygu Cynaliadwy ... 11
3.5. Bil Diwygio Cynllunio ... 12

**4. Biliau eraill yr ymgynghorwyd yn eu cylch ... 14**

4.1. Bil Tyllu Cosmetig (Oedran Cydsynio) (Cymru) ... 14
4.2. Bil Atal Troseddau Ieuenctid ... 15
4.3. Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig ... 16
4.4. Bil yr Amgylchedd ... 17
4.5. Bil Iechyd Cyhoeddus ... 18
4.6. Bil Diwygio Tenantiaeth ... 20
4.7. Bil Compactau Trydydd Sector Statudol ... 21
4.8. Bil Addysg Uwch (Cymru) ... 22
4.9. Bil Rheoleiddio ac Arolygu ... 23

**5. Biliau eraill nad ymgynghorwyd yn eu cylch ... 24**

5.1. Bil Treftadaeth ... 24
5.2. Bil Cydgrynhoi Cynllunio ... 25

**6. Biliau sydd wedi'u gollwng o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol ... 26**

6.1. Bil Rheoli Cŵn (Cymru) ... 26
6.2. Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru) ... 27
6.3. Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru) ... 28

**Atodiad A: Tabl cryno ... 29**

# Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: diweddariad 2013

## 1. Rhagymadrodd

Ar **12 Gorffennaf 2011**, gwnaeth Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, ddatganiad yn y cyfarfod llawn yn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd nesaf.[1]

Roedd y datganiad yn cynnwys manylion **21 o Filiau** yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno yn ystod y pedwerydd Cynulliad hyd at yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad ym mis Mai 2016. Ers hynny, mae'r Prif Weinidog wedi rhoi datganiad blynyddol am ddeddfau i'r Cynulliad a hynny er mwyn cyhoeddi'r Biliau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn honno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfanswm o **11** o Filiau yn ystod y pedwerydd Cynulliad (ers mis Mai 2011). O'r rhain:

- mae **4** wedi'u pasio gan y Cynulliad ac wedi cael Cydsyniad Brenhinol;[2]
- mae **2** wedi'u pasio ac yn aros i gael Cydsyniad Brenhinol;
- mae **5** yn destun gwaith craffu gan y Cynulliad ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori neu mae wrthi'n ymgynghori ar **13** o Filiau eraill. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud ei bod yn bwriadu cyflwyno **3** Bil arall nad ydyn nhw wedi bod yn destun ymgynghori eto.

Mae'r papur hwn yn rhoi: manylion am gynnydd Llywodraeth Cymru hyd yn hyn ar ei rhaglen ddeddfwriaethol; gwybodaeth am y Biliau sydd yn yr arfaeth ar gyfer sesiwn 2013-14, a manylion yr ymgynghori sydd wedi'i wneud ar Filiau sydd heb gael eu cyflwyno eto yn y Cynulliad. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn y cyfarfod llawn ar **16 Gorffennaf 2013**.

Biliau Llywodraeth Cymru yw'r holl Filiau a grybwyllir yn y papur hwn, ac nid Biliau Aelodau Cynulliad, Biliau Pwyllgorau na Biliau'r Comisiwn.

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, *Y Cyfarfod Llawn: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16*, 12 Gorffennaf 2011

[2] Sef: *Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012*; *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*; *Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013*; *Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013*.

## 2. Biliau a gyflwynwyd yn sesiwn 2012-13

### *2.1. Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)*

Cafodd y Bil[3] ei gyflwyno gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, Carl Sargeant AC, ar **26 Tachwedd 2012,**[4] ond yn sgil newid ym mhortffolios y Gweinidogion, daeth Lesley Griffiths AC yn Weinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, a chymryd drosodd fel yr Aelod Cyfrifol o **18 Mawrth 2013** ymlaen.[5]

Daeth y Bil hwn yn sgil ymgynghoriad ar Bapur Gwyn ynghylch 'Hybu Democratiaeth Leol' yng Nghymru rhwng mis **Mai** a mis **Awst 2012,**[6] a hwnnw yn ei dro wedi'i seilio ar argymhellion adolygiad Mathias, a gyhoeddwyd ym mis **Mehefin 2011**.[7] Nodau'r Bil yw:

- diwygio Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru;
- diwygio *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* o ran cyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a strwythur pwyllgorau archwilio'r awdurdodau lleol;
- gwella cyfle'r cyhoedd i weld gwybodaeth am gynghorau tref a chymuned;
- diwygio Rhan 3 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2000* i hwyluso creu cydbwyllgorau safonau gan yr awdurdodau lleol;
- galluogi'r cynghorau hynny sydd am wahanu'r swyddogaethau seremonïol a dinesig sy'n perthyn i gadeirydd y cyngor neu'r maer oddi wrth swyddogaeth llywyddu dros gyfarfodydd y cyngor i wneud hynny; ac
- ***[yn sgil gwelliant i'r Bil yng nghyfnod 3 ar 18 Mehefin 2013]***

  galluogi Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i wneud argymhellion ynghylch cyflogau uwch-swyddogion awdurdodau lleol Cymru.

Cafodd y Bil ei ystyried yng Nghyfnodau 1 a 2 gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Cafodd Cyfnodau 3 a 4 eu cynnal yn y cyfarfod llawn ar **18 Mehefin 2013**,[8] ac mae'r Bil heb gael Cydsyniad Brenhinol eto.

---

[3] ***Bil Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd]***
[4] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau), ***Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)*** , Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 26 Tachwedd 2012
[5] Llywodraeth Cymru, Carwyn Jones (Prif Weinidog Cymru), ***Ad-drefnu'r Cabinet***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 14 Mawrth 2013
[6] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Hybu Democratiaeth Leol: Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru***, 17 Mai 2012
[7] Llywodraeth Cymru, ***Adroddiad Adolygiad Mathias***, 22 Mehefin 2011
[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn***, 18 Mehefin 2013

## 2.2. *Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)*

Cafodd y Bil[9] ei gyflwyno gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar **3 Rhagfyr 2012**.[10] Yn sgil newid ym mhortffolios y Gweinidogion, cymerodd Mark Drakeford AC drosodd fel y Gweinidog cyfrifol o 18 Mawrth 2013 ymlaen.

Nod y Bil yw cynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael i'w trawsblannu a hynny drwy ddechrau system feddal o optio allan ynglŷn â rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru. Ymgynghorwyd ar y Bil ddwy waith: yn gyntaf ynglŷn â Phapur Gwyn a oedd yn nodi'r opsiynau ar gyfer deddfu ar roi organau a meinweoedd,[11] ac yn ail ar Fil drafft.[12]

Cafodd y Bil ei ystyried yng Nghyfnodau 1 a 2 gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cafwyd trafodion Cyfnodau 3 a 4 yn y cyfarfod llawn ar **2 Gorffennaf 2013**[13] ac mae'r Bil heb gael Cydsyniad Brenhinol eto.

## 2.3. *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*

Cafodd y Bil hwn[14] ei gyflwyno gan y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC, ar **28 Ionawr 2013**,[15] a chafodd ei gyfeirio at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1. Mae gan y Pwyllgor tan **19 Gorffennaf 2013** i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Mae'r Bil yn ceisio diwygio ac integreiddio'r gyfraith ar wasanaethau cymdeithasol i bobl, gan wneud darpariaeth ar y canlynol:

- gwella deilliannau llesiant i bobl y mae arnyn nhw angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnyn nhw angen cymorth;
- cydlynu a phartneriaethau ymysg awdurdodau cyhoeddus, gyda golwg ar wella llesiant pobl;
- cwynion a sylwadau ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol; a
- swyddogaethau'r awdurdodau lleol ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol a swyddogaeth Gweinidogion Cymru o ymyrryd yn y modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

---

[9] ***Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd]***
[10] Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)*** , Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 3 Rhagfyr 2013
[11] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd: Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru***, 7 Tachwedd 2011
[12] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) Drafft***, 18 Mehefin 2012
[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, Y Cyfarfod Llawn, 2 Gorffennaf 2013
[14] ***Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd]***
[15] Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 28 Ionawr 2013

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn crynodeb o'r Bil[16] a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil. Mae crynodeb Storify[17] ar gael hefyd o'r sylwadau sydd wedi'u cyflwyno am y Bil hwn ar-lein.

## *2.4. Bil Teithio Llesol (Cymru)*

Cafodd y Bil hwn[18] ei gyflwyno gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant AC, ar **18 Chwefror 2013**,[19] ond cymerodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths AC, drosodd fel y Gweinidog cyfrifol yn sgil newid portffolios y Gweinidogion ar ôl yr ad-drefnu ym mis Mawrth 2013.

Nod y Bil yw codi nifer y bobl sy'n cerdded ac yn beicio, ac mae'n gosod gofyniad ar yr awdurdodau lleol i wella'n barhaus ar gyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr ac i baratoi mapiau sy'n nodi'r llwybrau cyfredol a llwybrau posibl at y dyfodol i'w defnyddio ganddyn nhw. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr adeg y gwaith dylunio.

Cafodd y Bil ei ystyried yng Nghyfnodau 1 a 2 gan y Pwyllgor Menter a Busnes. Bydd Cyfnodau 3 a 4 yn digwydd ar ddechrau tymor yr hydref. Mae crynodeb o'r Bil gan y Gwasanaeth Ymchwil[20] ar gael ar wahân.

## *2.5. Bill Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethiant a Gwybodaeth) (Cymru)*

Cafodd y Bil hwn[21] ei gyflwyno gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Leighton Andrews AC, ar **29 Ebrill 2013**.[22] Mae wrthi'n cael ei ystyried yng Nghyfnod 1 gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, sy'n gorfod cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn **19 Gorffennaf 2013**. Ar ôl i Leighton Andrews ymddiswyddo ar 25 Mehefin 2013, cymerodd Huw Lewis AC drosodd fel yr Aelod cyfrifol.

Nod y Bil yw gwella ymreolaeth a galluoedd sefydliadau addysg bellach i wneud penderfyniadau a hynny drwy ddileu a diwygio'r rheolaeth sydd arnyn nhw yn y ddeddfwriaeth bresennol. Byddai'r Bil hefyd yn caniatáu i ddata sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau myfyrwyr sydd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gael ei rannu gyda Gweinidogion Cymru ac unrhyw un y mae Gweinidogion Cymru'n dirprwyo neu'n trosglwyddo swyddogaethau iddyn nhw. Mae'r porth rhannu data

[16] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Crynodeb o Fil: Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*, Chwefror 2013
[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Storify*
[18] *Bil Teithio Llesol (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd]*
[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, *Y Cyfarfod Llawn: Datganiad: Cyflwyno Bil Teithio Llesol (Cymru)*, 19 Chwefror 2013
[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Crynodeb o Fil: Bil Teithio Llesol (Cymru)*, Mawrth 2013
[21] *Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd]*
[22] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion. *Y Cyfarfod Llawn: Datganiad: Cyflwyno Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)*, 30 Ebrill 2013

yn rhan o brosiect i foderneiddio gwasanaeth gweithredol Cyllid Myfyrwyr Cymru, ac i symleiddio'r gwasanaeth a chreu effeithlonrwydd ynddo.

Ceir rhagor o fanylion yng nghrynodeb y Gwasanaeth Ymchwil o'r Bil.[23]

## *2.6. Bil Addysg (Cymru)*

Cafodd y Bil[24] ei gyflwyno gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis AC, ar **1 Gorffennaf 2013**. Mae wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, y mae ganddo tan **22 Tachwedd 2013** i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Mae'r Bil yn ymdrin â nifer o feysydd sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru. Yn benodol, mae'n ceisio deddfu o ran y canlynol:

- Y **gweithlu addysg**, drwy osod gofyniad ar athrawon a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a darparwyr addysg bellach i gofrestru gyda Chyngor Gweithlu Addysg diwygiedig y bydd ganddo bwerau: i roi cyngor ar safonau proffesiynol, datblygu proffesiynol parhaus a hyfforddiant cychwynnol; ac i ymchwilio i unrhyw honiadau o gamymddygiad neu anghymhwystra proffesiynol a gweithredu arnyn nhw. Bydd y Bil hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu cod ymddygiad ac ymarfer i'r gweithlu addysg;
- **Cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o ran anghenion addysgol arbennig** drwy gyflwyno un broses gofrestru i ysgolion annibynnol sy'n dymuno derbyn dysgwyr sydd â datganiad o AAA;
- **Addysg arbenigol ôl-16 i ddysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu** drwy beri bod yr awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli cyfnod pontio a phroses asesu dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig hyd at 25 oed (yn hytrach na 19 oed, fel ar hyn o bryd), ac am sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol, os oes ei hangen;
- **Dyddiadau tymhorau ysgol**, drwy osod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol ac ar gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithredu a chydlynu â'i gilydd wrth bennu dyddiadau tymhorau ysgolion, er mwyn sicrhau bod y dyddiadau yr un fath â'i gilydd neu mor debyg ag y gallan nhw fod; a
- **phenodi a diswyddo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a phenodi arolygwyr addysg a hyfforddiant EM yng Nghymru**.

---

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Crynodeb o Fil: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)***, Mai 2013
[24] ***Bil Addysg (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd]***

I ddechrau, roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynnwys darpariaethau yn y Bil ynghylch diwygio fframwaith deddfwriaethol anghenion dysgu ychwanegol a chofrestru plant sy'n cael eu haddysgu gartref, ond mae'r rhain wedi'u tynnu o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Mae'r Bil yn deillio o nifer o ymgynghoriadau ar wahân, sydd wedi'u crynhoi isod:

- O ran gweithlu byd addysg, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru i ddechrau ar 'Gynigion i ddiwygio'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru'[25] rhwng 16 Rhagfyr 2011 a 30 Mawrth 2012. Dilynwyd hyn gan ail ymgynghoriad rhwng 10 Medi a 19 Hydref 2012 a nododd ragor o fanylion ynghylch swyddogaethau corff cofrestru a sut y byddai'n gweithredu.[26]
- Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y cynigion ynghylch diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o ran anghenion addysgol arbennig rhwng 20 Medi a 1 Tachwedd 2012.[27]
- Ymgynghorwyd ar gynigion ynglŷn â'r cyfrifoldeb dros asesu'r angen am addysg ôl-16 arbenigol i ddysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu a thros drefnu'r addysg honno fel rhan o ymarfer ehangach ynglŷn â diwygio'r fframwaith asesu ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y mater hwn rhwng 26 Mehefin a 19 Hydref 2012.[28] Ceir manylion y cynigion ynghylch asesu'r angen am addysg ôl-16 arbenigol i ddysgwyr ag anawsterau dysgu a trefnu'r addysg honno ym Mhennod 10 o'r ymgynghoriad.
- Cafodd ymgynghoriad ar ddyddiadau tymhorau ysgol ei gynnal gan Lywodraeth Cymru rhwng 3 Medi a 26 Tachwedd 2012.[29]
- Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y cynigion ynghylch penodi a diswyddo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a phenodi Arolygwyr addysg a hyfforddiant EM yng Nghymru.

## *2.7. Bil Sector Amaethyddol (Cymru)*

Cafodd y Bil[30] ei gyflwyno gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, Alun Davies AC, a hynny fel **Bil Brys** ar **8 Gorffennaf 2013**.

Mae'r Bil yn dirprwyo nifer o bwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o ran cyflogau gweithwyr amaethyddol. Yn benodol, mae'r Bil:

---

[25] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Cynigion i ddiwygio'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru***, 16 Rhagfyr 2011
[26] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru***, 10 Medi 2012
[27] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig***, 20 Medi 2012
[28] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig***, 26 Mehefin 2012
[29] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Dyddiadau tymhorau ysgol: Cynigion ar gyfer diwygio'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru***, 3 Medi 2012
[30] *Bil Sector Amaethyddol (Cymru)* [fel y'i cyflwynwyd]

- yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud **Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol**;
- yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i sefydlu panel newydd, **Panel Cynghori Amaethyddol Cymru** i gyflawni swyddogaethau fel hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, cynghori Gweinidogion Cymru ar gynnwys Gorchymyn cyflogau amaethyddol ac ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol; ac
- yn galluogi **Panel Cynghori Amaethyddol Cymru** i gyflawni'r swyddogaethau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'r modd y mae'r sector amaethyddol yn gweithredu, gan gynnwys hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru i bennu telerau ac amodau gofynnol.

Cafodd y Bil ei gyflwyno yng ngoleuni'r ffaith bod *Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddiol 2013*[31] wedi'i phasio yn San Steffan, gan gynnwys darpariaethau a ddiddymodd **Fwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr**.

Cyn cyflwyno'r Bil cafwyd ymgynghoriad byr gan y Gweinidog rhwng 1 Mai a 26 Mehefin ar 'ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol a'r Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol yng Nghymru.[32] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 8 Gorffennaf 2013.[33]

Yn sgil pleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar **2 Gorffennaf 2013**, cytunodd y Cynulliad i'r Bil gael ei drin fel Bil Brys, a oedd yn golygu proses ddeddfu gyfyngedig iawn.[34] Dyma'r tro cyntaf i weithdrefn Bil Brys gael ei defnyddio yn y Cynulliad.

Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu na chafodd y Bil ei gyfeirio at un o Bwyllgorau'r Cynulliad i gael ei ystyried yn fanwl a bod trafodaeth Cyfnod 1 a'r bleidlais ar egwyddorion cyffredinol y Bil wedi'u cynnal y diwrnod ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, ar 9 Gorffennaf 2013. Disgwylir i drafodion Cyfnod 2 gael eu cynnal mewn Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan ar 16 Gorffennaf ac i Gyfnodau 3 a 4 ddilyn yn y cyfarfod llawn ar 17 Gorffennaf.

---

[31] *Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013*

[32] Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad: Dyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol a'r Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol yng Nghymru*, 1 Mai 2013

[33] Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad Dyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol: Crynodeb o'r ymatebion*, Gorffennaf 2013

[34] Mae rhagor o wybodaeth am Filiau Brys ar gael yn hysbysiad hwylus y Gwasanaeth Ymchwil *Hysbysiad Hwylus: Biliau Brys*

# 3. Biliau sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2013-14

## *3.1. Bil Gweithlu'r Sector Cyhoeddus*

Er na chafodd ymrwymiad i gyflwyno Bil Gweithlu Sector Cyhoeddus ei gynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol bum mlynedd Llywodraeth Cymru, fe gynhaliodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, Carl Sargeant AC, ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd ynghylch Bil o'r fath rhwng **8 Mai** a **31 Gorffennaf 2012.**[35] Cynigiodd y Papur Gwyrdd ddeddfwriaeth yn y meysydd a ganlyn:

- galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau statudol ar faterion sy'n effeithio ar weithlu'r gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, gan gynnwys proses i lywodraethu mabwysiadu cytundebau sy'n codi o gyngor partneriaeth y gweithlu;
- gosod dyletswydd ar sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i hybu a defnyddio gwaith partneriaeth fel y mae'n effeithio ar faterion y gweithlu; a
- sefydlu cod dwy-haen a chod TUPE (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)) i sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi'r Bil terfynol yn y gwanwyn, [36] ond nid yw wedi cael ei gyflwyno'n ffurfiol eto.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyrdd ar **2 Mai 2013**.[37] Cafwyd cyfanswm o 47 o ymatebion. Wrth ddatgan bod yr adroddiad cryno wedi'i gyhoeddi, dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths AC:

> Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn pwysleisio dau faes y dylai Gweinidogion Cymru eu hystyried. Roedd nifer o alwadau am fwy o arweiniad gan Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus. Roedd yn amlwg hefyd o'r ymatebion bod dryswch ynghylch sefyllfa a chwmpas y Codau Gweithlu Dwy Haen presennol, gyda gwahanol rannau o'r gwasanaeth cyhoeddus yn ansicr p'un a yw'r Codau'n berthnasol iddyn nhw, neu a yw'r Codau mewn grym o hyd.

---

[35] Llywodraeth Cymru, ***Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru: Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus***, 8 Mai 2012
[36] Gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Datganiad: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol***, 17 Gorffennaf 2012
[37] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyrdd – crynodeb o'r ymatebion***, Ymgynghoriad ynghylch Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru: Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus, Mai 2013

Nid yw penderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Codau cyfatebol yn Lloegr wedi effeithio ar sefyllfa'r Codau yng Nghymru. Mae Codau Gweithlu Dau Haen Cymru yn gymwys o hyd a dylid cadw atynt. Rwy'n credu bod angen mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng Codau statudol ac anstatudol a bod angen eglurder ar gwmpas y Codau.[38]

## *3.2. Bil Tai*

Rhwng **8 Rhagfyr 2011** a **17 Chwefror 2012**, cynhaliodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar y pryd, Huw Lewis AC, ymarfer ymgynghori ar ddogfen o dan y teitl 'Cwrdd â'r Her Tai; Creu consensws ar gyfer gweithredu'.[39] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn fuan wedyn a dywedodd y Gweinidog mai dyna fyddai'r sail ar gyfer cynnwys y Bil.[40]

Dilynwyd yr ymgynghoriad hwn ar **21 Mai 2012** gan ymgynghoriad ar Bapur Gwyn.[41] Wrth gyhoeddi'r Papur Gwyn, dywedodd y Gweinidog fod y ddogfen yn disgrifio 'cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd a chamau eraill anneddfwriaethol'.[42] Rhoddodd fanylion hefyd am y cynigion hynny yn y Papur Gwyn y byddai angen gweithredu yn eu cylch drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, sef:

- dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a sicrhau bod cymorth hyd yn oed yn well ar gael i bobl sy'n cael eu hunain yn ddigartref.
- dod â digartrefedd ymhlith teuluoedd i ben yng Nghymru erbyn 2019.
- cyflwyno cynllun cofrestru ac achredu gorfodol ar gyfer landlordiaid yn y sector preifat a fydd yn cynorthwyo unigolion a theuluoedd drwy reoleiddio arferion landlordiaid, asiantaethau gosod ac asiantaethau rheoli. Bydd landlordiaid da o fewn y sector preifat yn elwa ar y newidiadau hyn am na fydd yn caniatáu i arferion gwael barhau.
- mynd i'r afael â gwastraff ac effaith andwyol eiddo gwag drwy roi pŵer disgresiwn i'r awdurdodau lleol godi cyfradd uwch o dreth gyngor ar adeiladau sydd wedi bod yn wag ers dros flwyddyn.
- sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu safleoedd tai newydd ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr lle y nodwyd bod angen safleoedd o'r fath.
- darparu mwy o opsiynau o ran y math o dai sydd ar gael i bobl ddiwallu eu hanghenion drwy ddiffinio Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a sefydlu math newydd o ddeiliadaeth ar gyfer tai cydweithredol.

---

[38] Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths (Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth), ***Crynodeb o Ymatebion i'r Papur Gwyrdd – 'Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru: Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus***, 2 Mai 2013
[39] Llywodraeth Cymru, ***Cwrdd â'r Her Tai: Creu consensws ar gyfer gweithredu***, Rhagfyr 2011
[40] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth), ***Cwrdd â'r Her Tai – Creu Consensws ar gyfer Gweithredu***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 8 Rhagfyr 2011
[41] Llywodraeth Cymru, ***Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell***, Mai 2012
[42] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell*** , 21 Mai 2012

- cryfhau rôl strategol awdurdodau lleol wrth iddynt fynd ati i weld beth yw'r anghenion am dai yn lleol a mynd i'r afael â'r anghenion hynny.[43]

Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai'n cyflwyno Bil Tai ar sail cynigion y Papur Gwyn yn ystod '**hydref 2013**'.[44] Er hynny, bydd y cynigion yn y Papur Gwyn ar ddiwygio tenantiaeth yn cael eu symud yn eu blaen mewn Bil Diwygio Tenantiaeth ar wahân (gweler adran 4.6).

Daeth yr ymgynghori i ben ar **17 Awst 2012** a deth cyfanswm o 194 o gyflwyniadau i law. Cafodd manylion yr ymatebion eu rhoi gan y Gweinidog mewn datganiad i'r cyfarfod llawn ar **2 Hydref 2012**,[45] i gyd-fynd â chyhoeddi crynodeb o'r ymatebion gan Lywodraeth Cymru.[46]

Yn sgil ad-drefnu'r cabinet ym mis Mawrth 2013, daeth y cyfrifoldeb am y Bil hwn bellach o dan aden y Gweinidog Tai a Chymunedau, Carl Sargeant AC.

## *3.3. Bil Iechyd (Cyllidebau)*

Ar **10 Mehefin 2013**, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford AC, y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Bil newydd i roi mwy o hyblygrwydd i sefydliadau'r GIG reoli eu cyllidebau yn gynnar yn nhymor nesaf y Cynulliad. Byddai'r Bil yn cynnig bod y gofyniad statudol bod rhaid i'r byrddau iechyd lleol gydbwyso'u llyfrau dros gyfnod o flwyddyn yn cael ei newid i gylch o dair blynedd. Dywedodd y Gweinidog:

> Un o anfanteision mawr y gyfundrefn ariannol gyfredol yw y gall annog penderfyniadau ynghylch y flwyddyn gyfredol. Bydd y newid hwn yn helpu'r GIG i ganolbwyntio ar ei benderfyniadau cynllunio gwasanaethau, gweithlu ac ariannol dros gyfnod hwy yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar un flwyddyn , yn enwedig diwedd mis Mawrth.
>
> Mae'n rhaid i mi fod yn gwbl eglur nad yw symud i gylch cynllunio ariannol tair blynedd yn golygu na ddylai byrddau iechyd reoli'u cyllid mewn ffordd gwbl drylwyr."
>
> Mae Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol oll wedi argymell y dylid cyflwyno fframwaith cynllunio mwy hyblyg ar gyfer y GIG, gan gynnwys rheoli'u sefyllfa ariannol ar draws blynyddoedd ariannol.
>
> Disgwylir cyflwyno'r Bil yn gynnar yn nhymor nesaf y Cynulliad, ac os caiff ei gymeradwyo, bydd y gyfundrefn ariannol newydd yn dod i rym ym mlwyddyn ariannol 2014/15.[47]

---

[43] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth), ***Lansio'r Papur Gwyn Tai***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 21 Mai 2012
[44] Ibid
[45] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Datganiad: Ymatebion i'r Papur Gwyn Tai***, 2 Hydref 2012
[46] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad – Crynodeb o Ymatebion, Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwella Chymunedau Gwell (Saesneg yn unig)***, Hydref 2012
[47] Llywodraeth Cymru, Hysbysiad i'r Wasg, ***Deddfwriaeth newydd i ddiwygio cyfundrefn ariannol y GIG*** 10 Mehefin 2013.

## *3.4. Bil Datblygu Cynaliadwy*

Ar **8 Mai 2012**, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd, John Griffiths AC, y byddai'n lansio ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru ynghylch Bil Datblygu Cynaliadwy. Nododd y ddogfen ymgynghori ddibenion y Bil, sef:

- Deddfu i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru; a
- Chreu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru.[48]

Wrth gyhoeddi'r ymgynghoriad, dywedodd y Gweinidog:

> Rydym am i bob corff a sefydliad brysuro'r newid o blaid datblygu cynaliadwy, gan fynnu'r gorau o'n hadnoddau cyfyngedig a sicrhau'r canlyniadau gorau ar ran pobl Cymru. Dyma pam rydym am ddeddfu nawr, i ymrwymo Llywodraeth a sefydliadau datganoledig eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, ar lefel leol a chenedlaethol i'r daith.[49]

Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd ei fod am gyflwyno'r Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod hydref 2013.[50]

Daeth yr ymgynghori i ben ar **18 Gorffennaf 2012**. Cafwyd cyfanswm o 3927 o ymatebion, ac o'r rhain roedd y mwyafrif mawr (3749) yn ddau ymateb safonol a anfonwyd gan aelodau'r cyhoedd ar ran WWF ac Oxfam, sef 3163 a 586 o ymatebion yn y drefn honno. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion yn fuan ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad.[51]

Dilynwyd yr ymgynghoriad cychwynnol ar **3 Rhagfyr 2012** drwy gyhoeddi ymgynghoriad ar Bapur Gwyn ynghylch Bil Datblygu Cynaliadwy. Gofynnodd y Papur Gwyn am sylwadau ar y canlynol yn benodol:

- y cynigion ar gyfer dyletswydd newydd i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol sefydliadau dethol yng Nghymru;
- y cynigion ar gyfer corff datblygu cynaliadwy annibynnol;
- y cynnig i gyflwyno'r ddyletswydd yn raddol a'i rhoi ar waith, gan gynnwys yr amseru ar gyfer creu'r corff datblygu cynaliadwy annibynnol;
- y cynigion i wella'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru.[52]

Daeth yr ymgynghori i ben ar **4 Mawrth 2013** a chafwyd cyfanswm o 473 o ymatebion. Roedd 177 o'r rhain yn ymatebion a anfonwyd gan aelodau o'r grŵp ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cafwyd 142 o ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd a anfonodd ymateb ar ran Cyfeillion y Ddaear Cymru.

---

[48] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Ymgynghori: Cynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy***, Mai 2012, paragraff 1
[49] Llywodraeth Cymru, John Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy), ***Papur Gwyn – Cynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 3 Rhagfyr 2012
[50] Ibid
[51] Llywodraeth Cymru, ***Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy***, Gorffennaf 2012
[52] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Y Bil Datblygu Cynaliadwy – Papur Gwyn***, 3 Rhagfyr 2012

Cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (sydd erbyn hyn yn Weinidog cyfrifol am y Bil yn sgil yr ad-drefnu ar 14 Mawrth 2013)) adroddiad cryno ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad.[53] Ailadroddodd yr adroddiad ymrwymiadau blaenorol y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno yn ystod **hydref 2013**.[54]

### *3.5. Bil Diwygio Cynllunio*

Ar **30 Medi 2011**, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y pryd, John Griffiths AC, sefydlu **Grŵp Cynghori Annibynnol** ('IAG') i ffurfio cronfa o dystiolaeth ar gyfer Bil Cynllunio. Cadeirydd y grŵp oedd cyn Gyfarwyddwr Cymreig yr Arolygiaeth Gynllunio, John Davies MBE, ac roedd yn cynnwys chwe chynrychiolydd arall o ystod eang o gefndiroedd mewn cynllunio, gan gynnwys sefydliadau amgylcheddol, y diwydiant adeiladu, llywodraeth leol a'r gyfraith ar gynllunio. [55]

Cynhaliodd yr IAG ymarfer ymgynghori rhwng 11 Tachwedd 2011 a 3 Chwefror 2012. Cyfarfu hefyd saith gwaith rhwng mis Hydref 2011 a mis Mawrth 2012. Yn wreiddiol, roedd i fod i gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2012.[56] Cafodd adroddiad yr IAG ei gyhoeddi ym mis **Medi 2012**[57] ochr yn ochr â chanlyniadau arolwg o agweddau'r cyhoedd[58] ac ymchwil arall i nodi ffyrdd i symleiddio'r system rheoli datblygu lle mae Cynlluniau Datblygu Lleol wedi'u mabwysiadu.[59]

Ym mis **Ionawr 2013** cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymchwil hefyd gan Hyder Consulting ar gydsyniadau ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy.[60] Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cymryd adroddiad yr IAG ac ymchwil a chanfyddiadau eraill, megis adroddiad Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad ym mis Ionawr 2011 ar eu hymchwiliad i gynllunio yng Nghymru i ystyriaeth wrth baratoi'r Papur Gwyn a'r Bil drafft. [61]

Bydd cynnwys y Bil yn cael ei fwydo hefyd gan yr ymatebion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i Bapur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw', yn ychwanegol at yr ymgynghori sydd yn yr arfaeth ar y Papur Gwyn ar Bil drafft ac sydd i'w gynnal ar ddiwedd 2013. [62]

---

[53] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi), ***Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Ddatblygu Cynaliadwy***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 15 Mai 2013
[54] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion – Cymru Gynaliadwy: Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell***, Mai 2013 paragraff 18
[55] Llywodraeth Cymru, ***Grŵp Cynghori Annibynnol***, 29 Tachwedd 2011
[56] Llywodraeth Cymru, ***Adolygiad Cynllunio Cymru: Canlyniadau, amseru a mesurau llwyddiant***, 9 Tachwedd 2011
[57] Llywodraeth Cymru, ***Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol***, 17 Medi 2012
[58] Llywodraeth Cymru, ***Agweddau'r cyhoedd tuag at y system gynllunio yng Nghymru***, 17 Medi 2012
[59] Llywodraeth Cymru, ***Dull Newydd o Reoli Datblygu yng Nghymru: Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru,*** 17 Medi 2012
[60] Llywodraeth Cymru, ***Gwerthuso cydsyniadau ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy***, *30 Ionawr 2013*
[61] Llywodraeth Cymru, ***Cwestiynau ac Atebion am y Bil Cynllunio***, 8 Chwefror 2013
[62] Llywodraeth Cymru, ***Bil Cynllunio: Y darlun llawn***

Dywedodd y Gweinidog Adfywio a Thai, Carl Sargeant AC, wrth y cyfarfod llawn ar **12 Mehefin 2013** y byddai'r Bil Cynllunio'n cael ei gyflwyno i'r Cynulliad cyn Toriad Haf 2014.[63] Cadarnhaodd y Prif Weinidog hefyd yn ddiweddar y byddai yna Fil Cydgrynhoi Cynllunio ar wahân ar ôl y Bil Diwygio (Gweler adran 5.2 isod).

[63] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Cyfarfod Llawn, ***Cofnod y Trafodion: OAQ(4)0274(HR)***, 12 Mehefin 2013

## 4. Biliau eraill yr ymgynghorwyd yn eu cylch

Biliau yw'r canlynol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn eu cylch heb gyhoeddi eto pa bryd y cân nhw eu cyflwyno'n ffurfiol.

### *4.1. Bil Tyllu Cosmetig (Oedran Cydsynio) (Cymru)*

Ar **18 Hydref 2011**, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Lesley Griffiths AC, ddogfen ymgynghori ar dyllu cosmetig i bobl ifanc.[64] Nod y ddogfen oedd 'ymgynghori ar yr angen i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod yn rhaid cael cydsyniad rhiant cyn y gellir rhoi triniaeth tyllu cosmetig i bobl ifanc'. Yn benodol, nodwyd y materion canlynol i'w hystyried:

> Er ei bod yn bosibl cau tyllau cosmetig gan amlaf (drwy dynnu'r gemwaith er enghraifft), mae problemau fel chwyddo, haint, gwaedu, alergeddau, rhwyg neu anaf yn gyffredin. Dangosodd gwaith ymchwil yn Lloegr fod dros 25% o'r bobl sy'n cael triniaeth tyllu cosmetig (heblaw yn llabedi'r clustiau) yn cael problemau a bod tua 50% o'r rhain yn eu hystyried yn ddigon difrifol i ofyn am gymorth pellach.
>
> Weithiau, gall triniaeth tyllu cosmetig hefyd achosi niwed i'r nerfau a chreithio, ac mae perygl bychan iawn o ddal feirysau'r gwaed fel hepatitis. Hefyd, mewn achosion prin iawn, mae pobl oedd eisoes â phroblemau iechyd wedi marw o ganlyniad i dyllu cosmetig.
>
> Ar hyn o bryd, gall awdurdodau lleol yng Nghymru fynnu bod y sawl sy'n darparu triniaeth tyllu cosmetig yn cofrestru'r busnes ac yn dilyn rheolau ar lanweithdra a hylendid. Er hynny, nid oes yna gyfyngiad oedran ar driniaethau tyllu cosmetig, felly gall pobl ifanc gael triniaeth tyllu cosmetig heb ganiatâd rhiant neu warcheidwad cyn belled â'u bod yn deall beth sy'n cael ei wneud iddynt a'r peryglon posibl. Nod yr ymgynghoriad yw casglu safbwyntiau ynghylch sut i wneud tyllu cosmetig yn fwy diogel i bobl ifanc yng Nghymru.[65]

Yn y datganiad a gafwyd gyda'r ddogfen ymgynghori, pwysleisiodd y Gweinidog: 'A decision on the need to legislate will be taken following a full analysis of the consultation responses'.[66]

Daeth yr ymgynghori i ben ar **31 Ionawr 2012** a chafodd crynodeb o'r 228 o ymatebion a ddaeth i law ei gyhoeddi wedyn gan Lywodraeth Cymru.[67]

---

[64] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Ymgynghori: Tyllu Cosmetig i Bobl Ifanc: Ymgynghoriad i gasglu safbwyntiau ynghylch sut i wneud tyllu cosmetig yn fwy diogel ar gyfer pobl ifanc***, 18 Hydref 2011

[65] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Ymgynghori: Tyllu Cosmetig i Bobl Ifanc: Ymgynghoriad i gasglu safbwyntiau ynghylch sut i wneud tyllu cosmetig yn fwy diogel ar gyfer pobl ifanc***, 18 Hydref 2011

[66] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnod y Trafodion*, ***Y Cyfarfod Llawn***, 18 Hydref 2011, tudalen 1

[67] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion***, Tyllu Cosmetig i Bobl Ifanc: Ymgynghoriad i gasglu safbwyntiau ynghylch sut i wneud tyllu cosmetig yn fwy diogel ar gyfer pobl ifanc, Mai 2012

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar **30 Mai 2012**, cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu:

> symud ymlaen gyda'r cynigion i greu deddf a fydd yn ymdrin â materion megis:
>
> - Oedran cydsynio gofynnol ar gyfer tyllu cosmetig. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid i riant neu warcheidwad fod gyda rhywun ifanc dan 16 mlwydd oed pan fyddant yn cael triniaeth tyllu cosmetig. Bydd hyn yn cynnwys triniaethau mwy cyffredin, megis tyllu llabed y glust.
>
> - Cyfyngiad oedran pendant ar gyfer tyllu cosmetig personol (tyllu'r tethi neu'r genitalia). Bydd hyn yn gwahardd y rhai sy'n darparu triniaeth tyllu cosmetig rhag darparu triniaeth tyllu cosmetig personol i bobl ifanc dan 18 mlwydd oed.
>
> - Ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n darparu triniaeth tyllu cosmetig gynnal sesiwn cyn pob triniaeth tyllu cosmetig, ni waeth beth fo oedran y sawl sy'n dymuno cael y driniaeth. Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â'r canlynol, o leiaf:
>
>   - A oes gan y sawl sy'n cael y driniaeth unrhyw broblemau iechyd sy'n golygu y bydd mewn mwy o berygl os caiff y driniaeth.
>   - Sut y caiff y driniaeth ei rhoi, gan gynnwys unrhyw broblemau posibl.
>   - Sut i ofalu am y twll er mwyn atal haint.
>
> Diben y ddeddfwriaeth hon yw gostwng nifer yr heintiadau a'r cymhlethdodau ar ôl triniaeth sy'n gysylltiedig â thyllu cosmetig yng Nghymru.[68]

Er hynny, daeth y Gweinidog i'r casgliad 'nad oes penderfyniad eto am y cyfrwng deddfwriaethol priodol ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig hon na'r amserlenni ar gyfer ei chyflwyno' a'i bod yn bwriadu 'cyhoeddi rhagor o fanylion ac ymgynghori'n llawn yn eu cylch, unwaith y byddant wedi eu cwblhau'n derfynol.[69]

## *4.2. Bil Atal Troseddau Ieuenctid*

Ar **12 Gorffennaf 2011**, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgynghori ar Fil Atal Troseddau Ieuenctid a fyddai'n cryfhau gwaith i gyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n ymuno ac yn ymadael â'r system cyfiawnder troseddol 'by making clear the vulnerabilities of those within the system and establishing duties on local partnerships to address them'.[70] Cafodd ymrwymiad i gyflwyno'r Bil ei ailadrodd yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.[71]

---

[68] Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths (Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Tyllu Cosmetig i Bobl Ifanc***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 30 Mai 2012
[69] Ibid
[70] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16***, 12 Gorffennaf 2011
[71] Llywodraeth Cymru, ***Rhaglen Lywodraethu: Cymunedau Mwy Diogel***, Gorffennaf 2011

Ar **18 Medi 2012**, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, Carl Sargeant AC, ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd ar gynigion i wella gwasanaethau i ateb anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd ynddi yn barod.[72] Yn benodol, nododd yr ymgynghoriad y 'sefyllfa sydd ohoni o ran y ddarpariaeth cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru' gan ofyn am sylwadau a oes 'angen am ddeddfwriaeth sylfaenol i wella'r gwasanaethau.[73]

Yn ychwanegol at yr ymgynghori ffurfiol, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiadau ymgynghori hefyd ym Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Abertawe rhwng **mis Hydref a mis Tachwedd 2012**, i weld a oedd angen Bil yn y maes hwn.

Daeth yr ymgynghori i ben ar **11 Rhagfyr 2012**. Dos dim crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn.

## *4.3. Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig*

Roedd rhaglen bum-mlynyddol gyntaf Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Bil Camdriniaeth Ddomestig (Cymru) i osod dyletswydd ar gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus i sefydlu strategaeth ar gam-drin ddomestig a thrais yn erbyn menywod.

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel',[74] sef ei strategaeth dros gyfnod o chwe blynedd i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a chamdriniaeth ddomestig, ynghyd â **chynllun gweithredu ar gyfer 2010-13**,[75] ym mis **Mawrth 2010**. Dilynodd hyn strategaeth gynharach gan Lywodraeth Cymru ar gamdriniaeth ddomestig, sef 'Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Dull Cydasiantaethol' a lansiwyd yn 2005.

---

[72] Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad Papur Gwyrdd ar gynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni*, 18 Medi 2012
[73] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau), *Ymgynghoriad Papur Gwyrdd ar gynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet*, 18 Medi 2012
[74] Llywodraeth Cymru, ***Yr hawl i Fod yn Ddiogel***, Mawrth 2010
[75] Llywodraeth Cymru, ***Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig – Cynllun Gweithredu 2010-13***, Mawrth 2010

Cafodd ymgynghori ar Bapur Gwyn, cynigion polisi a chynigion deddfu eu cyhoeddi gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, Carl Sargeant AC, ar **Tachwedd 2012**.[76] Dywedodd y Gweinidog fod cynigion y papur Gwyn yn canolbwyntio ar dri maes penodol:

- gwella arweinyddiaeth ac atebolrwydd;
- gwella addysg ac ymwybyddiaeth; a
- cryfhau gwasanaethau yng Nghymru.[77]

Daeth yr ymgynghori i ben ar **22 Chwefror 2013**.

Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd ei fod wedi sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gynnar yn 2012 i fwydo'r datblygiadau polisi cynnar a hyd a lled y ddeddfwriaeth arfaethedig.[78] Lluniodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen adroddiad ym mis **Awst 2012**, ond nid yw ar gael yn gyhoeddus. Cynhaliodd Tîm Trais yn erbyn Menywod a Chamdriniaeth Ddomestig Llywodraeth Cymru dri digwyddiad ymgysylltu hefyd ledled Cymru rhwng **Ionawr a Chwefror 2013**, gan gynnwys dros 300 o unigolion, a oedd yn cynnwys grwpiau sector arbenigol a defnyddwyr gwasanaethau.[79]

## *4.4. Bil yr Amgylchedd*

Ar **30 Ionawr 2012**, lansiodd Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y pryd, John Griffiths AC, 'Cynnal Cymru Fyw', sef Papur gwyrdd ar ymagwedd newydd at reoli adnoddau naturiol Cymru.[80] Mae'r Papur Gwyrdd yn dilyn ymgynghoriad gan Lywodraeth flaenorol Cymru rhwng Medi a **Rhagfyr 2010** ynghylch fframwaith newydd i'r amgylchedd naturiol yng Nghymru, o'r enw 'Cymru Fyw'.[81]

Bwriad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd oedd bwydo **Bil yr amgylchedd** a'r **Bil Cynllunio** (gweler adran 3.5 isod). Daeth yr ymgynghori i ben ar **31 Mai 2012** a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion a gafwyd ym mis **Medi 2012**.[82]

---

[76] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau), ***Cyhoeddi Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar gynigion polisi a deddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 23 Tachwedd 2012
[77] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig (Cymru)***, 26 Tachwedd 2012
[78] Ibid
[79] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig (Cymru)***, 26 Tachwedd 2012
[80] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Cynnal Cymru Fyw***, 30 Ionawr 2012
[81] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: ***Cymru Fyw - Fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd***, 15 Medi 2010
[82] Llywodraeth Cymru, ***Report on responses to the consultation document: 'Sustaining a Living Wales: A Welsh Governments Green Paper on a new approach to natural resource management in Wales'*** (Saesneg yn unig), Medi 2012

Yn ôl y Papur Gwyrdd, cynnig canolog Llywodraeth Cymru yw 'move to an ecosystems approach to environmental regulation and management'.[83] Yn benodol, bydd yr ymagwedd newydd yn anelu at y canlynol:

- improve the resilience and diversity of our environment and its supporting biodiversity;
- provide simpler and more cost-effective regulation;
- offer greater certainty for decision-makers.[84]

Mewn datganiad a gyhoeddwyd ar **23 Hydref 2012**, cynigiodd y Gweinidog y sylwadau a ganlyn am Fil yr Amgylchedd:

> The next phase of the natural resource management planning work is to put in place the legislative framework for the environment by delivering the environment Bill, **and my intention is to issue a White Paper next year** *[Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*. In doing so, we will focus on engagement with the full range of partners and sectors so that we are clear about the challenges and potential conflicts and making the most of the synergies and opportunities. At the same time, we will ensure that the development of our approach to natural resource planning goes hand in hand with our wider strategic objectives, including our focus on the improvement of the planning system.[85]

## *4.5. Bil Iechyd Cyhoeddus*

Ar **29 Tachwedd 2012**, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Lesley Griffiths AC, ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd i gasglu sylwadau ynghylch a oedd angen Bil Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru. Yn y datganiad sy'n cyd-fynd â'r Papur Gwyrdd, dywedodd y Gweinidog:

> Mae llawer iawn eisoes wedi'i gyflawni i wella ac amddiffyn iechyd ein pobl. Er hynny, nid yw iechyd cyffredinol pobl Cymru yn cyfateb yn llwyr i'n dyheadau. Yn benodol, mae angen mynd ati ar frys i wneud mwy i atal afiechyd yn y lle cyntaf, ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes iechyd. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn cychwyn trafodaeth ehangach ar iechyd, ynghylch a fyddai cyflwyno deddfwriaeth newydd yn ffordd effeithiol o wneud cynnydd pellach mewn meysydd pwysig fel y rhain, gyda'r nod cyffredinol o sicrhau cymdeithas iachach a thecach. Mae'n rhoi cyfle gwerthfawr inni edrych i ba raddau y gallai deddfwriaeth ein helpu i gyflawni ein dyheadau cyffredinol ar gyfer iechyd a lles pobl Cymru, a'n helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau cymhleth sy'n wynebu ein hiechyd yn yr unfed ganrif ar hugain.
>
> Diben y Papur Gwyrdd hwn yw gweld a yw pobl o'r farn fod angen Bil i ymdrin â'r materion hyn yng Nghymru. Nid ymgynghori ar gynnig deddfwriaethol manwl yw ei fwriad, ond yn hytrach, hwn yw'r cam cyntaf tuag at ystyried y posibilrwydd o ddatblygu deddfwriaeth newydd.[86]

---

[83] Ibid, tudalen 1
[84] Ibid
[85] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Datganiad: Canlyniadau Ymgynghoriad 'Cynnal Cymru Fyw***', 23 Hydref 2012
[86] Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths, (Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Ymgynghoriad Papur Gwyrdd i weld a yw pobl o'r farn bod angen Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 29 Tachwedd 2012

Mae'r Papur Gwyrdd yn awgrymu mai 'gosod dyletswyddau statudol ar gyrff i ystyried materion iechyd y cyhoedd'[87] fyddai diben Bil newydd, sef dyletswyddau a allai gynnwys y cyfan neu rai o'r dulliau a ganlyn:

- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried materion iechyd wrth lunio polisïau;
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff priodol ystyried materion iechyd gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau iechyd;
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff priodol ystyried materion iechyd gyda'r nod o atgyfnerthu'r gwaith o atal problemau iechyd; a
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff priodol ystyried materion iechyd gyda'r nod o atgyfnerthu cyfranogiad y gymuned mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u gwasanaethau iechyd.[88]

Mae'r Papur Gwyrdd hefyd yn cyfeirio at enghreifftiau o Ddeddfau Iechyd Cyhoeddus yn **Sweden** a **Norwy** ac mae Llywodraeth Cymru'n dadlau bod y rhain 'yn gwneud datganiad symbolaidd cadarn am bwysigrwydd sylfaenol ymdrech gan y boblogaeth gyfan i wella iechyd, ac yn cynnwys gofynion penodol o ran camau gweithredu er mwyn gwneud hynny.[89]

Daeth yr ymgynghori i ben ar **20 Chwefror 2013**. Yng ngoleuni'r 371 o ymatebion a ddaeth i law, dywedodd y Gweinidog:

> Roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn gefnogol i'r cyfeiriad polisi cyffredinol a'r testunau a archwiliwyd gan y Papur Gwyrdd. Roedd cefnogaeth yn arbennig i gyflawni dull o weithredu 'Iechyd ymhob Polisi' yng Nghymru, er mwyn rhoi sylw i'r amrywiol ffactorau ar draws meysydd polisi a all effeithio ar iechyd a lles yn gyffredinol. Roedd nifer o ymatebion hefyd yn cynnig safbwyntiau mwy cyffredinol neu'n canolbwyntio ar feysydd penodol o iechyd cyhoeddus, fel mynd i'r afael â'r defnydd o dybaco neu ymdrin â gordewdra. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cynnig cyfoeth o sylwadau, syniadau ac awgrymiadau am y rôl y gallai deddfwriaeth ei chwarae o ran gwella a diogelu iechyd yng Nghymru.[90]

Ychwanegodd y Gweinidog y byddai 'yn parhau i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth feddwl am y camau nesaf yn y gwaith pwysig hwn.[91] Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[92] Ychwanegodd y crynodeb hyn:

> Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud hyd yma ynghylch a gaiff Bil Iechyd y Cyhoedd ei lunio, ac **nid yw Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas ag unrhyw feysydd a amlinellir yn y Papur Gwyrdd**. *[Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*.[93]

---

[87] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyrdd: Ymgynghoriad i weld beth yw barn pobl am gael Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru***, 29 Tachwedd 2012, paragraff 4.5
[88] Ibid, paragraff 5.2
[89] Ibid
[90] Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, (Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad Papur Gwyrdd i gasglu barn pobl ynghylch a oes angen Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 23 Mai 2013
[91] Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, (Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Papur Gwyrdd – Crynodeb o ymatebion: ymgynghoriad i weld beth yw barn pobl am gael Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 23 Mai 2013
[92] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyrdd – Crynodeb o Ymatebion***, Mai 2013
[93] Ibid

## *4.6. Bil Diwygio Tenantiaeth*

Roedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar y Bil Tai, a gynhaliwyd rhwng **21 Mai** a **17 Awst 2012**, yn cynnwys ymrwymiad i 'fynd ati i ddiwygio tenantiaethau, drwy gyfrwng Bil ar wahân, yn ystod oes y Cynulliad hwn.[94] Ychwanegodd y Papur Gwyn y gallai Bil o'r fath gael ei seilio ar gynigion a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Gomisiwn y Gyfraith yn eu hadroddiad ym mis **Mai 2006** o'r enw Renting Homes[95] ac yn y *Bil Cartrefi ar Rent* a gafwyd i gyd-fynd â'r adroddiad.[96]

Ar **6 Gorffennaf 2012**, cyhoeddodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar y pryd, Huw Lewis AC, ymgynghoriad ynghylch 'Cynigion ar gyfer Gwell Sector Rhentu Preifat yng Nghymru'[97] a ddaeth i ben ar yr un dyddiad â'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar 17 Awst 2012. Wrth gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu 'cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer landlordiaid ac asiantaethau sy'n gosod'[98] yn y sector rhentu preifat. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis **Chwefror 2013**.[99]

Ar **9 Ebrill 2013**, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad ychwanegol ynghylch 'Renting Homes in Wales'[100] yn sgil galwadau gan Lywodraeth Cymru ar i'r Comisiwn adolygu a diweddaru ei argymhellion ynglŷn â diwygio'r gyfraith ar dai.[101]

Yn sgil cyhoeddi adroddiad Comisiwn y Gyfraith, ar **20 Mai 2013** cyhoeddwyd ymgynghoriad ychwanegol ar Bapur Gwyn gan y Gweinidog Tai ac Adfywio, Carl Sargeant AC, o dan y teitl **'**Rhentu Cartrefi – ffordd well i Gymru'.[102] Wrth gyhoeddi'r cynigion, dywedodd y Gweinidog:

> Mae'n cynigion yn gosod fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rhentu cartref. Credaf y bydd yn fodd i sicrhau system decach i'r landlord ac i'r tenant fel ei gilydd. Bydd y system hon hefyd yn fwy tryloyw ac yn fwy hyblyg. Bydd dau fath o gontract rhentu yn ganolog i'r trefniadau newydd:
>
> - "Contract diogel" sy'n seiliedig ar y denantiaeth ddiogel a roddir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd;
>
> - "Contract safonol" sy'n seiliedig ar y denantiaeth fyrddaliol sicr a ddefnyddir yn y sector rhentu preifat yn bennaf.

---

[94] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell***, 21 Mai 2012, paragraff 21
[95] Comisiwn y Gyfraith, Renting Homes: The Final Report, ***Volume 1: Report***, Mai 2006
[96] Comisiwn y Gyfraith, Renting Homes: The Final Report, ***Volume 2: Draft Rented Homes Bill***, Mai 2006
[97] Llywodraeth Cymru, ***Cynigion ar gyfer Gwell Sector Rhentu Preifat yng Nghymru***, 6 Gorffennaf 2012
[98] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth), ***Cynigion ar gyfer Gwell Sector Rhentu Preifat yng Nghymru – Papur Ymgynghori***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 6 Gorffennaf 2012
[99] Llywodraeth Cymru, ***Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer Gwell Sector Rhentu Preifat yng Nghymru***, Chwefror 2013
[100] Comisiwn y Gyfraith, ***Renting Homes in Wales***, 9 Ebrill 2013
[101] Comisiwn y Gyfraith, ***Renting Homes in Wales***, 9 Ebrill 2013, paragraff 1.1
[102] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyn Rhentu Cartrefi: Ffordd Well i Gymru***, 20 Mai 2013

> Bydd y trefniadau newydd yn gymwys i landlordiaid cymdeithasol a'u tenantiaid, a hefyd i'r sector rhentu preifat. Bydd y trefniadau'n gwella effeithlonrwydd y system dai drwy drin pob math o landlordiaid yn yr un modd, gan olygu y byddant yn gallu cydweithio'n agosach i fodloni'r angen am dai. Bydd y trefniadau'n decach i denantiaid hefyd. Bydd ganddynt hawliau a chyfrifoldebau cyffelyb -ni waeth gan bwy y byddant yn rhentu eu cartref. [103]

Mae'r Papur Gwyn yn ychwanegu bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno'r Bil yn 2015.[104] Bydd y cyfnod ymgynghori'r rhedeg tan **16 Awst 2013**.[105]

## *4.7. Bil Compactau Trydydd Sector Statudol*

Yn natganiad y Prif Weinidog ar **12 Gorffennaf 2011** cafwyd ymrwymiad i ymgynghori ynghylch deddfwriaeth a fyddai'n golygu bod trefniadau compact Trydydd Sector rhwng awdurdodau lleol a chyrff canolradd yn y trydydd sector (Cynghorau Gwirfoddol Sirol) yn ofynnol yn statudol.

Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu dau gwmni allanol, Practical Wisdom R2Z a Wavehill Ltd, i wneud ymchwil ac i baratoi adroddiad ar ei rhan i fwydo'i phenderfyniadau ynghylch a ddylai gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ym mis **Chwefror 2013**.[106] Daeth i'r casgliad a ganlyn:

> mae tri opsiwn cyffredinol ymysg y rhai sydd i'w hystyried:
>
> - Gwneud dim;
> - Datblygu fframweithiau presennol cyfreithiol ac ar sail compact i sicrhau bod mwy o reolaeth neu ddylanwad dros gompactau;
> - Cyflwyno ymrwymiadau statudol newydd mewn perthynas â chompactau.
>
> Rydym yn gwrthod yr opsiwn cyntaf ar y sail bod gormod o wneud dim wedi cyfrannu at broblemau anghysondeb o ran gweithrediad a cholli momentwm ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain yn awr. Credwn fod gwerth rhoi cynnig ar yr ail opsiwn, gan fod yr elfennau sylfaenol yn eu lle a dim ond eu cryfhau sydd angen, gellir dechrau gweithredu yn ddi-oed a bydd hyn yn rhybudd ym myd y compact mai hwn yw'r cam olaf cyn troi at ddulliau llymach. **Credwn, felly, y dylid cadw'r trydydd opsiwn wrth gefn a'i weithredu'n unig os na bydd unrhyw beth arall yn gweithio.** [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*.[107]

---

[103] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (Y Gweinidog Tai ac Adfywio), ***Cyhoeddi Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Rhentu Cartrefi – ffordd well i Gymru***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 20 Mai 2013
[104] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyn Rhentu Cartrefi: Ffordd Well i Gymru***, 20 Mai 2013, paragraff 26
[105] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyn Rhentu Cartrefi*** 20 Mai 2013
[106] Llywodraeth Cymru, ***Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth: Yr Achos dros Gompactau Statudol rhwng Awdurdodau Lleol Cymru a'r Trydydd Sector: Adroddiad Cryno ac Argymhellion***, Chwefror 2013
[107] Llywodraeth Cymru, ***Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth: Yr Achos dros Gompactau Statudol rhwng Awdurdodau Lleol Cymru a'r Trydydd Sector: Adroddiad Cryno ac Argymhellion***, Chwefror 2013, tudalen 29

Ar **16 Mai 2013**, lansiodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Huw Lewis AC, ddogfen ymgynghori ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru. Yn ei ddatganiad i gyd-fynd â'r ddogfen, dywedodd y Gweinidog hyn:

> Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn helpu i lunio dyfodol y berthynas weithio a chyllido rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru.[108]

O ran Bil at y dyfodol, ychwanegodd y ddogfen ymgynghori hyn:

> Mae deddfwriaeth newydd yn cael ei hystyried i hybu'r defnydd o gompactau o'r fath yng Nghymru ac mae ymchwil wedi'i chomisiynu i gyfrannu at benderfyniadau ar hyn yn y dyfodol.[109]

Daw'r ymgynghoriad i ben ar **8 Awst 2013**.

## *4.8. Bil Addysg Uwch (Cymru)*

Ar **2 Gorffennaf 2012**, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Leighton Andrews AC, ymgynghoriad ar Bapur Gwyn ynghylch Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru).[110]

I raddau helaeth, cafodd cynigion y Papur Gwyn ynglŷn â sefydliadau addysg bellach eu hymgorffori ym *Mil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)*, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar **29 Ebrill 2013** (ceir rhagor o wybodaeth am y Bil yn adran 2.5 o'r ddogfen hon). Er hynny, chafodd y cynigion yn y Papur Gwyn a oedd yn ymwneud ag ail-lunio fframwaith atebolrwydd a rheolaeth dros Gyngor Cyllido Addysg uwch Cymru ('CCAUC') mo'u cynnwys.

Ar **6 Mawrth 2013**, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig yn cydnabod bod angen i'r cynigion ynghylch addysg uwch gael eu datblygu ymhellach cyn cael eu cyflwyno mewn Bil. Dywedodd hyn:

> O ran addysg uwch, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddadansoddi a datblygu ymhellach y cynigion yn y Papur Gwyn. Byddaf yn cyflwyno'r darpariaethau mewn perthynas â diwygio addysg uwch drwy ddeddfwriaeth yn hwyrach yn ystod tymor y Cynulliad hwn.[111]

Dilynwyd y datganiad hwn ar **20 Mai 2013** drwy gyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynigion yn y Papur Gwyn ar Addysg Uwch a oedd hefyd yn cynnwys ymgynghoriad technegol pellach ar fframwaith rheoleiddiol diwygiedig i addysg uwch yng Nghymru.[112] Mae'r Gweinidog hefyd wedi cadarnhau ei fod yn bwriadu

---

[108] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi), ***Parhad a Newid – Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru***, 16 Mai 2013
[109] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Ymgynghori: Parhad a Newid – Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru***, 16 Mai 2013, paragraff 1.23
[110] Llywodraeth Cymru, ***Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)***, 2 Gorffennaf 2012
[111] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), ***Crynodeb Llywodraeth Cymru o'r Ymatebion i'r Papur Gwyn – Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2013***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 6 Mawrth 2013
[112] Llywodraeth Cymru, ***Bil Addysg Uwch (Cymru): Ymgynghoriad technegol***, 20 Mai 2013

‘cyflwyno darpariaethau mewn perthynas â diwygio addysg uwch drwy ddeddfwriaeth yn hwyrach yn ystod tymor y Cynulliad hwn.[113] Daw’r ymgynghoriad i ben ar **29 Gorffennaf 2013**.

Roedd datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar addysg uwch, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ar 11 Mehefin 2013, hefyd yn cynnwys ymrwymiad ynghylch:

> cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod gan CCAUC bwerau a dyletswyddau priodol mewn perthynas â sicrhau ansawdd a rheoleiddio’r sector AU sy’n rhoi ystyriaeth i’r trefniadau cyllido newydd ar gyfer darpariaeth addysg uwch.[114]

## *4.9. Bil Rheoleiddio ac Arolygu*

Ar **28 Mehefin 2012**, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC, na fyddai darpariaethau ynghylch arolygu’r gweithlu gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu cynnwys ym *Mil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)* fel y bwriadwyd yn wreiddiol (ceir rhagor o wybodaeth am y Bil yn adran 2.3 o’r ddogfen hon),[115] a hynny yng ngoleuni sylwadau gan randdeiliaid yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ynghylch y Bil a ddaeth i ben ar **1 Mehefin 2012**.[116]

Wrth gyhoeddi ei phenderfyniad, dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd ei bod yn bwriadu cyflwyno Bil ar wahân ynghylch gofal cymdeithasol yn ystod y Cynulliad presennol er mwyn ‘mynd i’r afael â rheoleiddio ac arolygu’r gweithlu gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.[117] Mewn datganiad ar wahân a gyhoeddwyd ar **27 Mehefin 2013**, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn ‘ym mis Medi eleni [2013], yn cael ei ddilyn gan Fil yn ystod oes y Llywodraeth hon.[118]

---

[113] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), ***Ymateb Llywodraeth Cymru i Bapur Gwyn Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2013, ac Ymgynghoriad technegol pellach***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 20 Mai 2013

[114] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad polisi ar addysg uwch***, 11Mehefin 2013, tudalen 26

[115] Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Diweddariad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn dilyn yr Ymgynghoriad***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 28 Mehefin 2013

[116] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)***, 12 Mawrth 2013

[117] Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Diweddariad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn dilyn yr Ymgynghoriad***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 28 Mehefin 2013

[118] Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Datganiad Polisi ar Reoleiddio ac Arolygu’r Gwasanaethau Cymdeithasol***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 27 Mehefin 2013

# 5. Biliau eraill nad ymgynghorwyd yn eu cylch

## *5.1. Bil Treftadaeth*

Roedd datganiad y Prif Weinidog ar **12 Gorffennaf 2011** yn cynnwys ymrwymiad i ddod â Bil Treftadaeth gerbron, a hwnnw'n anelu at fireinio a moderneiddio'r ystod eang bresennol o ddulliau rheoli sydd ar gael i helpu i ddiogelu asedau hanesyddol yng Nghymru.[119]

Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru i 'gyflwyno Mesur Cadwraeth Treftadaeth i gryfhau ac amddiffyn adeiladau rhestredig yng Nghymru'.[120] Mae hefyd yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyn ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Mawrth 2007[121] a drafft o Fil Diogelu Treftadaeth yn San Steffan ym mis Ebrill 2008.[122] Y disgwyl oedd i'r Bil gael ei gyflwyno'r ffurfiol gan Lywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig fel yr oedd ar y pryd yn ystod sesiwn seneddol 2008-09 ond ni lwyddwyd i ddod o hyd i amser iddo.

Yn ôl gwefan Llywodraeth Cymru, nodau'r Bil fydd:

- sicrhau bod safleoedd ac adeiladau yn cael eu diogelu i'r safon orau bosib;
- cadw cymeriad tirwedd a threfi hanesyddol Cymru;
- helpu i sicrhau bod y man lle mae pobl yn byw a'u hanes o fewn cyrraedd iddyn nhw a'u bod yn eu deall a'u diogelu. Eu helpu hefyd i ddeall pwysigrwydd treftadaeth leol.[123]

Mae'r Bil hefyd yn dilyn cyhoeddi **Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol**[124] gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths AC, ym mis **Mai 2013**. Mae'r Strategaeth yn nodi rôl yr amgylchedd hanesyddol wrth sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pendant i gymunedau Cymru gan anelu at osod sylfeini i'r Bil arfaethedig.

Mae gwefan Llywodraeth Cymru'n dweud y caiff ymgynghoriad ar Bapur Gwyn ynghylch y Bil ei lansio yn ystod **haf 2013**,[125] cyn i'r Bil gael ei gyflwyno yn **2014**.[126]

---

[119] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16***, 12 Gorffennaf 2011
[120] Plaid Lafur Cymru, ***Maniffesto Llafur Cymru 2011: Sefyll Cornel Cymru***, tudalen 104
[121] Llywodraeth Cymru a'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, ***Heritage Protection for the 21st Century***, 8 Mawrth 2007
[122] ***Draft Heritage Protection Bill***
[123] Llywodraeth Cymru, ***Bil Treftadaeth***, 7 Rhagfyr 2012
[124] Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru***, Mai 2013
[125] Llywodraeth Cymru, ***Bil Treftadaeth***, 7 Rhagfyr 2012
[126] Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru***, 23 Hydref 2012

## *5.2. Bil Cydgrynhoi Cynllunio*

Ar ôl cyflwyno'r *Bil Diwygio Cynllunio* (gweler adran 3.5 uchod), dywedodd y Prif Weinidog ar **14 Mai 2013** y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno 'Bil cydgrynhoi pellach ar gynllunio'n dwyn ynghyd yr holl Ddeddfau presennol ac yn symleiddio'r broses gynllunio ymhellach'.[127] Ni roddwyd rhagor o wybodaeth am brosesau ymgynghori ynglŷn â'r Bil na dyddiadau cyflwyno.

[127] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion, Y Cyfarfod Llawn: Datganiad: Cynnydd o ran rhoi "Ynni Cymru" ar waith***, 14 Mai 2013

## 6. Biliau sydd wedi'u gollwng o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol

Yn ystod y rhaglen ddeddfwriaethol hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ailystyried yr angen i gyflwyno'r Biliau a ganlyn.

### *6.1. Bil Rheoli Cŵn (Cymru)*

Er nad oedd rhaglen pum mlynedd gyntaf Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth ynghylch rheoli cŵn, dywedodd y Prif Weinidog ar **17 Gorffennaf 2012** y byddai Llywodraeth Cymru'n ymgynghori yn yr hydref ar Fil Rheoli Cŵn ac y câi'r Bil hwnnw ei gyflwyno 'y gwanwyn nesaf'.[128]

Cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd, John Griffiths AC, ymgynghoriad[129] ar *Fil Rheoli Cŵn (Cymru) drafft* ar **22 Tachwedd 2012**.[130] Daeth yr ymgynghori i ben ar **1 Mawrth 2013** a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion yn fuan wedyn.[131]

Ond mewn datganiad a gyhoeddwyd ar **2 Mai 2013**, cadarnhaodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, Alun Davies AC, na fyddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'r Bil ac y byddai yn hytrach yn gofyn am bwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cŵn peryglus drwy un o Filiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Dywedodd y Gweinidog:

> Wedi trafod â'r Swyddfa Gartref a Defra, mae hi bellach yn glir y gallai fod gwerth cydweithio. Bydd fy nhrafodaethau â Llywodraeth y DU yn parhau gyda golwg ar ystyried ai deddfwriaeth Senedd y DU fyddai'r cyfrwng gorau ar gyfer mynd â'r cynigion hyn yn eu blaen mewn ffordd ystyrlon. Byddwn yn parhau i weithio gyda Defra i sicrhau bod eu cynigion i ddiwygio'r Ddeddf Cŵn Peryglus yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn drosedd i gŵn fod allan o reolaeth a pheryglus ar safle preifat a diogelu cŵn cymorth.[132]

Er hynny, ychwanegodd y byddai'n 'cadw'r opsiwn i gyflwyno bil Cymru os na allwn ddod i gytundeb ar yr opsiynau deddfu a gynigir ar lefel y DU.[133]

Roedd Araith y Frenhines ar gyfer Sesiwn seneddol 2013-14 a draddodwyd yn senedd y Deyrnas Unedig ar **8 Mai 2013**, yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno *Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona*,[134] a gafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar **9 Mai 2013**. Yn ôl Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i gryfhau'r pwerau i fynd i'r afael â pherchnogaeth anghyfrifol ar gŵn drwy ymestyn trosedd bod yn berchennog

---

[128] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol***, 17 Gorffennaf 2012
[129] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer y Bil Rheoli Cŵn (Cymru) Drafft***, 23 Tachwedd 2013
[130] Llywodraeth Cymru, John Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ***Y Bil Rheoli Cŵn (Cymru) Drafft***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 22 Tachwedd 2012
[131] Llywodraeth Cymru, ***Bil Rheoli Cŵn (Cymru): Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – crynodeb o'r ymatebion***, 2 Mai 2013
[132] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd), ***Bil Rheoli Cŵn (Drafft) Cymru***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 2 Mai 2013
[133] Ibid
[134] ***Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2013-14***

a/neu fod yn gyfrifol am gi sydd allan o reolaeth mewn modd peryglus i fannau preifat.

Ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno yn San Steffan, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o ran darpariaethau yn y Bil sy'n gwneud gwelliannau i *Ddeddf Cŵn Peryglus 1991*.[135]

## *6.2. Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru)*

Roedd rhaglen ddeddfu gychwynnol Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno *Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru)* i adeiladau ar 'the Children's Rights Measure … and expand the role of the Children's Commissioner for Wales'.[136] Er hynny, ar **17 Gorffennaf 2012**, dywedodd Prif Weinidog Cymru hyn:

> Dywedasom y byddem yn cyflwyno Bil plant a phobl ifanc i adeiladu ar gyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i atgyfnerthu ein hagwedd tuag at gefnogi plant sy'n derbyn gofal, i sefydlu un gwasanaeth mabwysiadu i Gymru, i adolygu ein safbwynt ynglŷn â diogelu, i bennu safonau cenedlaethol, ac i ystyried rôl a swyddogaeth y byrddau diogelu plant lleol. Er mwyn sicrhau agwedd integredig tuag at gyflenwi gwasanaeth, rydym yn bwrw ymlaen â'r ymrwymiadau hyn drwy'r Bil gwasanaethau cymdeithasol a chyflawni 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru'.[137]

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar **9 Mai 2013**, awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru, Keith Towler, fod Llywodraeth Cymru wedi gollwng y Bil yn gyfan gwbl. Dywedodd wrth yr Aelodau:

> Previously, in the legislative programme, we had a children's Bill that was going to move forward the work on rights and, within that, there was a commitment to look at the legislation for the children's commissioner. That no longer exists; we do not have that within the legislative programme.[138]

Ond yn yr un cyfarfod, cafwyd y drafodaeth a ganlyn rhwng Simon Thomas AC a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Huw Lewis AC:

> **Simon Thomas:** The children's commissioner had some technical points about how he dealt with complaints. He said that he needed the legislation that formed his office to keep pace with due regard and the developments in Welsh legislation … Do you have any intention to bring forward a children's Bill during this Assembly that could address some of the commissioner's concerns about the technical aspects, but also some wider issues that Mai need addressing?

---

[135] Llywodraeth Cymru, ***Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona - Darpariaethau mewn perthynas â chyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol, Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Hysbysiadau Cau a Diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991***, Mai 2013
[136] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16***, 12 Gorffennaf 2011
[137] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol***, 17 Gorffennaf 2012
[138] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cofnod y Trafodion, Craffu ar Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru ag Adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc Cymru) 2011 a'r Cynllun Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn Diwygiedig**, 9 Mai 2013

> **Huw Lewis:** First things first: I need to talk to the commissioner. I have a meeting in my diary with the commissioner coming up. I am aware that his office has had concerns about legislation as it relates to the role of the commissioner. That is what we are talking about. I will need to explore that with him and understand precisely what it is about. As you say, I know that it is technical, and I do not have a lawyer with me at the moment. We need to have that discussion first. It would be silly to commit to a chunk of legislation on the basis of my second-hand hearing of reports from the commissioner that there is a concern here. I need to understand this first.[139]

## *6.3. Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru)*

Dywedodd y Prif Weinidog wrth yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ar **12 Gorffennaf 2011** y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno *Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru)* a fyddai'n hwyluso 'the process of local authorities making joint appointments, requiring them to consider doing so for posts of specified seniority, and create powers for the Auditor General for Wales to inspect and report on compliance with this duty, and for the Welsh Ministers to intervene in cases of failure'.[140]

Serch hynny, ar **24 Ionawr 2012**, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, Carl Sargeant AC, fod Llywodraeth Cymru wedi ailystyried yr angen i gyflwyno Bil o'r fath. Dywedodd:

> Rwyf o'r farn nad oes angen uniongyrchol am ddeddfwriaeth bellach ym maes cydweithredu, ond byddaf yn cyhoeddi canllawiau statudol yn ddiweddarach eleni. Drwy waith grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, byddaf yn monitro'n ofalus y cynnydd y mae'r gwahanol rannau o'r compact yn ei wneud, ac, os yw'n methu neu'n araf, byddaf yn ailystyried y safbwynt hwn ar ddeddfwriaeth.[141]

---

[139] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cofnod y Trafodion, Craffu ar Gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru ag Adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc Cymru) 2011 a'r Cynllun Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn Diwygiedig**, 9 Mai 2013
[140] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn***, 12 Gorffennaf 2011
[141] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn***, 24 Ionawr 2012

## Atodiad A: Tabl cryno

**Biliau a basiwyd**

| **Enw'r Ddeddf** | **Dyddiad cyflwyno'r Bil** | **Dyddiad y Cydsyniad Brenhinol** |
|---|---|---|
| *Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012* | 28 Tachwedd 2011 | 29 Tachwedd 2012 |
| *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* | 23 Ebrill 2012 | 4 Mawrth 2013 |
| *Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013* | 28 Mai 2012 | 4 Mawrth 2013 |
| *Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013* | 9 Gorffennaf 2012 | 29 Ebrill 2013 |
| *Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013* | 26 Tachwedd 2012 | I'w gadarnhau |
| *Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013* | 3 Rhagfyr 2012 | I'w gadarnhau |

**Biliau sydd eisoes wedi'u cyflwyno ac sy'n destun gwaith craffu yn y Cynulliad ar hyn o bryd**

| **Enw'r Bil** | **Dyddiadau'r Papur Gwyn / Bil Drafft / Ymgynghori** | **Dyddiad Cyflwyno'r Bil** |
|---|---|---|
| *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* | Papur Gwyn (12 Mawrth 2012 – 1 Mehefin 2012) | 28 Ionawr 2013 |
| *Bil Teithio Llesol (Cymru)* | Papur Gwyn (9 Mai 2012 – 14 Awst 2012) | 18 Chwefror 2013 |
| *Bil Addysg Bellach ac* | Papur Gwyn (2 | 29 Ebrill 2013 |

| | | |
|---|---|---|
| *Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)* | Gorffennaf 2012 – 24 Medi 2012) | |
| *Bil Addysg (Cymru)* | Dogfen Ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r gofynion ynghylch cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru (16 Rhagfyr 2011 – 30 Mawrth 2012)<br><br>Dogfen Ymgynghori ychwanegol ar gynigion ynghylch cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru (10 Medi 2012 – 19 Hydref 2012)<br><br>Dogfen Ymgynghori ar anghenion addysgol arbennig (26 Mehefin 2012 – 19 Hydref 2012)<br><br>Dogfen Ymgynghori ar ddyddiadau tymhorau ysgol (3 Medi a 26 Tachwedd 2012) | 1 Gorffennaf 2013 |
| *Bil Sector Amaethyddol (Cymru)* ***[Bil Brys]*** | Dogfen Ymgynghori (1 Mai 2013 - 26 Mehefin 2013) | 8 Gorffennaf 2013 |

**Biliau sydd yn yr arfaeth ar gyfer sesiwn 2013-14**

| | | |
|---|---|---|
| *Bil Gweithlu'r Sector Cyhoeddus (Cymru)* | Papur Gwyrdd (8 Mai 2012 – 31 Gorffennaf 2012) | Hydref 2013 |
| *Bil Tai* | Dogfen Ymgynghori (8 Rhagfyr 2011 – 17 Chwefror 2012)<br><br>Papur Gwyn (21 Mai 2012 – 17 Awst 2012) | Hydref 2013 |

| | | |
|---|---|---|
| *Bil Datblygu Cynaliadwy* | Dogfen Ymgynghori (8 Mai 2012 – 18 Gorffennaf 2012)<br>Papur Gwyn (3 Rhagfyr 2012 – 4 Mawrth 2013) | Hydref 2013 |
| *Bil Iechyd (Cyllidebau)* | Dim ymgynghori | Yn gynnar yn nhymor 2013-14 |
| *Bil Diwygio Cynllunio* | Papur Gwyrdd ynghylch Cynnal Cymru Fyw (30 Ionawr 2012 – 31 Mai 2012)<br>Papur Gwyn a Bil Drafft i'w cyhoeddi tua diwedd 2013.[142] | Cyn toriad haf 2014 |

**Biliau eraill sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd neu a fu'n destun ymgynghori**

| | | |
|---|---|---|
| *Bil Cam-drin Ddomestig (Cymru)* | Papur Gwyn (26 Tachwedd 2012 – 22 Chwefror 2013) | Dywedodd y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2011 y câi'r Bil ei gyflwyno yn y ddwy flynedd nesaf.[143] |
| *Bil Atal Troseddau Ieuenctid* | Papur Gwyrdd ar gynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni (18 Medi 2012 – 11 Rhagfyr 2012) | Heb ei bennu |
| *Bil addysg Uwch (Cymru)* | Papur Gwyn ar Fil Addysg | Heb ei bennu |

[142] Llywodraeth Cymru, *Bil Cynllunio: llinell amser*, 23 Ebrill 2013
[143] Ibid

| | | |
|---|---|---|
| | Bellach ac Uwch (Cymru) (2 Gorffennaf 2012 – 24 Medi 2012)<br><br>**Ymgynghoriad technegol** ar Fil Addysg Uwch (Cymru) (20 Mai 2013 – 29 Gorffennaf 2013) | |
| *Bil yr Amgylchedd* | **Papur Gwyrdd** ynghylch Cynnal Cymru Fyw (30 Ionawr 2012 – 31 Mai 2012) | Sesiwn 2014-15 |
| *Bil Diwygio Tenantiaeth* | **Papur Gwyn** (20 Mai 2013 – 16 Awst 2013) | 2015 |
| *Bil Compactau Trydydd Sector Statudol* | **Dogfen Ymgynghori** ar adnewyddu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector (16 Mai 2013 – 8 Awst 2013) | Mae'r Prif Weinidog wedi dweud y cyflwynir y Bil hwn tua diwedd y pedwerydd Cynulliad.[144] |
| *Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)* | **Papur Gwyrdd** (29 Tachwedd 2012 – 20 Chwefror 2013) | Mae'r Prif Weinidog wedi dweud y cyflwynir y Bil hwn rywbryd yn ail hanner y rhaglen ddeddfwriaethol.[145] |
| *Bil Rheoleiddio ac Arolygu* | **Papur Gwyn** ynghylch Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Bill (12 Mawrth 2012 – 1 Mehefin 2012)<br><br>Ymgynghoriad Papur Gwyn ychwanegol i'w | Heb ei bennu |

[144] Ibid
[145] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn***, 12 Gorffennaf 2012

| | | |
|---|---|---|
| | gyhoeddi ym mis Medi 2013.[146] | |
| *Bil Tyllu (Odran Cydsynio) (Cymru)* | **Dogfen Ymgynghori** (18 Hydref 2011 – 31 Ionawr 2012) | Heb ei bennu |

**Biliau eraill nad ymgynghorwyd yn eu cylch**

| | | |
|---|---|---|
| *Bil Treftadaeth* | Ymgynghoriad Papur Gwyn i'w lansio yn haf 2013.[147] | 2014[148] |
| *Bil Cydgrynhoi Cynllunio* | Dim ymgynghori | Heb ei bennu |

**Biliau a dynnwyd o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol**

| | | |
|---|---|---|
| *Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru)* | Dim ymgynghori | Ar 24 Ionawr 2012, dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd na fyddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'r Bil.[149] |
| *Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru)* | Dim ymgynghori | |
| *Bil Rheoli Cŵn (Cymru)* | **Bil Drafft** (23 Tachwedd 2012 – 1 Mawrth 2013) | Ar 2 Mai 2013, dywedodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd y bydd Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â'i chynigion ynglŷn â chŵn peryglus drwy gyfrwng Bil Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sef *Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona,* |

[146] Llywodraeth Cymru, Gwenda Thomas (Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol), ***Datganiad Polisi ar Reoleiddio ac Arolygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 27 Mehefin 2013
[147] Llywodraeth Cymru, ***Bil Treftadaeth***, 7 Rhagfyr 2012
[148] Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru***, 23 Hydref 2012
[149] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Y Cyfarfod Llawn: Compact Simpson gyda Llywodraeth Leol***, 24 Ionawr 2012

| | | |
|---|---|---|
| | | yn hytrach na thrwy Fil yn y Cynulliad.[150] |

[150] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd), ***Bil Rheoli Cŵn Drafft (Cymru)***, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 2 Mai 2013